**Huw Lewis AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog dros Blant**
**Deputy Minister for Children**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf: LF/HL/0010/10

Janet Ryder AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA

28ain Mehefin 2010

Annwyl Janet,

**Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – 1 Gorffennaf 2010**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 17 Mehefin 2010 yn fy ngwahodd i roi tystiolaeth i'r pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2010.

Mae'n bleser gennyf dderbyn eich gwahoddiad ac rwy'n edrych ymlaen at gael y cyfle i drafod y pwerau llunio is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Hoffwn roi'r wybodaeth ganlynol er mwyn helpu'r pwyllgor cyn ein cyfarfod.

<u>Effaith y Mesur arfaethedig</u>

Bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a Phrif Weinidog Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt.

Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch:

- paratoi cynllun plant;
- adroddiadau ynglŷn â chydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

- diwygio deddfwriaeth i roi effaith bellach neu effaith well i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- ymgynghori ar gymhwysiad posibl y Mesur arfaethedig i bobl sydd wedi troi'n 18 oed ond heb droi'n 25 oed.

Rhoddir manylion yr effaith y bwriedir i ddarpariaethau amrywiol y Mesur arfaethedig ei chael ym mharagraffau 3.13 i 3.52 Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol.

Penderfyniadau Strategol

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru amlinellu yn eu cynllun plant y meini prawf y byddant yn eu defnyddio i nodi penderfyniadau strategol, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y meini prawf hynny'n cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad. Yna bydd y ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol yn berthnasol i *unrhyw* benderfyniad o fewn y meini prawf hynny.

Caiff y meini prawf hynny eu datblygu yn ystod 2011 ar gyfer ymgynghoriad ac i'w cyflwyno yn y pen draw i'r Cynulliad, byddant yn hollol dryloyw a byddant yn cynnwys rhanddeiliaid. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym o'r farn y dylid llunio'r meini prawf mewn ffordd sy'n berthnasol i'r penderfyniadau y mae Gweinidogion Cymru neu'r Prif Weinidog yn eu gwneud i nodi amcanion tymor hwy, ac y dylid cynllunio wedyn sut y gallant ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt i fodloni'r meini prawf hynny.

Rydym o'r farn y byddai meini prawf o'r fath yn berthnasol i'r holl waith o lunio polisi a'r rhan fwyaf o gynigion deddfwriaethol.

Bydd cymhwyso'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i benderfyniadau strategol gan Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog yn golygu y bydd y ddyletswydd yn effeithio ar bob maes o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y lefel strategol. Wedyn bydd canlyniadau rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol yn effeithio ar bob swyddogaeth a arferir o fewn cyd-destun y penderfyniadau strategol hynny.

Nid oes darpariaeth yn y Mesur arfaethedig a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru eithrio meysydd swyddogaethol penodol o gwmpas y ddyletswydd i roi sylw dyledus.

Pwerau a gweithdrefnau i lunio is-ddeddfwriaeth

Mae paragraffau 5.1 i 5.16 Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol yn esbonio:

- pa bwerau a gynhwysir yn y Mesur arfaethedig sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru greu is-ddeddfwriaeth;
- pam yr ymdrinnir â'r materion y mae'r pwerau galluogi hynny'n ymwneud â hwy yn y ffordd honno, yn hytrach nag ar sail y Mesur arfaethedig;

- pa un o weithdrefnau'r Cynulliad sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer y pŵer ym mhob achos a'r rhesymau pam mae'r weithdrefn honno wedi'i dewis.

Sut y gall pwerau llunio is-ddeddfwriaeth effeithio ar bwerau eraill Gweinidogion Cymru

Gellid arfer y pŵer yn adran 6 y Mesur arfaethedig i ddiwygio deddfwriaeth ac offerynnau uchelfreiniol i roi effaith bellach a gwell i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, o bosib, er mwyn diwygio pwerau Gweinidogion Cymru mewn deddfwriaeth arall.

Fodd bynnag, fel y gellir gweld ym mharagraff 3.38 Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol, dim ond i wneud diwygiadau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru y gellir defnyddio'r pŵer.

Mae'r pŵer yn adran 7 y Mesur arfaethedig yn bŵer i gymhwyso darpariaethau'r Mesur, gan ei addasu os yw hynny'n briodol, i'r rheini sydd rhwng 18 a 24 oed.

Gellid ei arfer er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i ddarpariaethau penodol y Confensiwn neu ei Brotocolau Dewisol mewn perthynas â phobl ifanc 18 i 24 oed, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer eu pwerau mewn deddfwriaeth arall.

Gweithredu'r pwerau llunio is-ddeddfwriaeth

Ni ellir arfer y pŵer yn adran 6 heb i Weinidogion Cymru lunio adroddiad o dan y Mesur arfaethedig sy'n dod i'r casgliad y byddai'n ddymunol diwygio deddfwriaeth neu offerynnau uchelfreiniol i roi effaith bellach neu effaith well i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol.

Mae'n annhebygol y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad o dan y Mesur tan fis Ionawr 2013. Os bydd yr adroddiad yn dod i'r casgliad ei bod yn ddymunol diwygio'r ddeddfwriaeth neu'r offerynnau uchelfreiniol, caiff Gweinidogion Cymru fynd ymlaen yn y fan honno i lunio unrhyw gynigion ar gyfer diwygiadau ac ymgynghori arnynt.

Bydd cynllun y plant yn amlinellu cynigion Gweinidogion Cymru ar gyfer ymgynghori ar ba un a ddylid cymhwyso unrhyw un o ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig i'r rheini sydd rhwng 18 a 24 oed gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 7. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar eu casgliadau o ran y mater hwn.

Yn dibynnu ar y casgliadau yn yr adroddiad hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru fynd ati yn y fan honno i lunio unrhyw gynigion ar gyfer cymhwyso'r Mesur arfaethedig i'r rheini sydd rhwng 18 a 24 oed.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth yn y llythyr hwn o ddefnydd i aelodau'r pwyllgor yn eu trafodaethau. Hoffwn ddiolch i'r aelodau unwaith eto am y gwahoddiad i gyfarfod y pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2010.

Edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn gyda chi.



**Huw Lewis AM/AC**